O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 563 (Cy. 163)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffyrdd yr A465, yr A40, yr A449, yr A470 a'r A4060 (Lleoliadau Amrywiol yn Ne Cymru) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mai 2016* |
| *Yn dod i rym* | *9 Mai 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465), Cefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40 a'r A449), Cefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40), Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A40), Cefnffordd Llandeilo – Caerfyrddin (yr A40), Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt sy'n deillio o gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Mai 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A465, yr A40, yr A449, yr A470 a'r A4060 (Lleoliadau Amrywiol yn Ne Cymru) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o

gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" (*"transportation period"*) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 9 Mai 2016 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" (*"the lengths of the trunk roads"*) yw'r darnau o brif gerbytffyrdd a chylchfannau cefnffyrdd yr A465, yr A40, yr A449, yr A470 a'r A4060 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Mai 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

### <u>Cefnffordd yr A465</u>

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr, i'r gogledd o Langua, Sir Fynwy hyd at ei chyffordd â'r A4061 wrth Gylchfan Hirwaun, Hirwaun, Rhondda Cynon Taf.

### <u>Cefnffordd yr A40</u>

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr, i'r gogledd o Gylchfan Dixton, Trefynwy, Sir Fynwy hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pen-sarn, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin.

### <u>Gorchymyn Cefnffordd yr A449</u>

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy hyd at ei chyffordd â thraffordd yr M4 wrth Gyfnewidfa Coldra, Casnewydd.

### <u>Cefnffordd yr A470</u>

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Gylchfan Coryton, Caerdydd hyd at ei chyffordd â'r A40 wrth Gylchfan Tarrell, Aberhonddu, Powys.

### <u>Cefnffordd yr A4060</u>

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A470 wrth Gylchfan Abercannaid, Merthyr Tudful hyd at ei chyffordd â'r A465 wrth Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful.